# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 25 Medi 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(150)

**Datganiad Gan Y Dirprwy Lywydd**

Cyhoeddodd y Dirprwy Lywydd bod y Biliau a ganlyn wedi cael Cydsyniad Brenhinol:

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ar 30 Gorffennaf;

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) ar 10 Medi.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.15

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 6 ac 8 i 15. Trosglwyddwyd cwestiwn 7 i'w ateb yn ysgrifenedig.

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.57

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

**Cynnig Gweithdrefnol**

Cafwyd cynnig gweithdrefnol gan Ann Jones yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio'r ddadl fer ar ran Julie James.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5302 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gan fwyafrif y plant a gaiff eu gwahardd neu eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig, eu bod yn fechgyn, y gallant hawlio prydau ysgol am ddim, eu bod yn blant sy'n derbyn gofal, neu y cânt eu dysgu'n aml mewn uned cyfeirio disgyblion;

2. Yn cydnabod yr anghysondebau rhwng awdurdodau lleol ynghylch addysg y tu allan i leoliad ysgol;

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i ostwng y cyfnod gorfodol lle mae gofyn i awdurdodau lleol ddarparu addysg i ddisgyblion wedi'u gwahardd; a

4. Yn galw am roi strategaeth gydlynol ar waith ar gyfer disgyblion a gaiff eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol, er mwyn monitro a gwella eu cyfleoedd a'u canlyniadau addysgol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 32 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1, cynnwys ar ôl 'blant sy'n derbyn gofal':

‘eu bod o gefndiroedd difreintiedig, eu bod o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, eu bod mewn ysgolion neu ddosbarthiadau mawr,’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu wrth y diffyg cynnydd o ran helpu plant sydd wedi cael eu gwahardd o’r ysgol ers yr adroddiad ymchwil yn 2011 a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar waharddiadau anghyfreithlon o’r ysgol yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi’r canlynol yn eu lle:

Yn nodi:

a) bod Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cyflawni eu dyletswyddau cyfredol mewn perthynas â darparu addysg i ddisgyblion sydd wedi’u gwahardd; a

b) y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod polisïau ac arferion da yn cael eu gweithredu’n drylwyr i ofalu bod plant a addysgir y tu allan i leoliad ysgol yn cael gwell canlyniadau.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 3, dileu popeth ar ôl 'wedi'u gwahardd' a chynnwys:

'ac i adrodd ar y camau y mae'n eu cymryd i helpu'r plant hynny sydd wedi'u gwahardd neu'n cael eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol i gael eu hailintegreiddio cyn gynted â phosibl;'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 4 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio i ba raddau y mae cyrsiau hyfforddi athrawon yn arfogi athrawon â'r sgiliau angenrheidiol i gefnogi myfyrwyr sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu sy'n cael eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

'a bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i weithredu argymhellion adroddiad 2013 ar werthuso'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sy'n cael eu dysgu y tu allan i'r ysgol.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5302 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod gan fwyafrif y plant a gaiff eu gwahardd neu eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig, eu bod yn fechgyn, y gallant hawlio prydau ysgol am ddim, eu bod yn blant sy'n derbyn gofal, neu y cânt eu dysgu'n aml mewn uned cyfeirio disgyblion;

2. Yn cydnabod yr anghysondebau rhwng awdurdodau lleol ynghylch addysg y tu allan i leoliad ysgol;

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i ostwng y cyfnod gorfodol lle mae gofyn i awdurdodau lleol ddarparu addysg i ddisgyblion wedi'u gwahardd; a

4. Yn galw am roi strategaeth gydlynol ar waith ar gyfer disgyblion a gaiff eu dysgu y tu allan i leoliad ysgol, er mwyn monitro a gwella eu cyfleoedd a'u canlyniadau addysgol a bod Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i weithredu argymhellion adroddiad 2013 ar werthuso'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc sy'n cael eu dysgu y tu allan i'r ysgol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig wedi'i ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5304 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi bod galwad olaf am dystiolaeth y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) yn dod i ben ddydd Gwener, 27 Medi 2013.

2. Yn nodi bod y gwaith ymchwil a wnaethpwyd ar ran Comisiwn Silk yn dangos cefnogaeth sylweddol dros roi rhagor o bwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda

chefnogaeth benodol dros drosglwyddo pwerau ynni adnewyddadwy (70%), plismona (63%) a darlledu a rheoleiddio'r cyfryngau (58%).

3. Yn nodi ymhellach y gefnogaeth a welwyd y llynedd dros drosglwyddo pwerau ariannol, gyda 64% yn cefnogi trosglwyddo pwerau treth incwm i Lywodraeth Cymru, 80% yn cefnogi pwerau benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith, a 72% o blaid trethi 'cymell'.

4. Yn mynegi pryder bod Llywodraeth y DU wedi oedi cymaint cyn ymateb i adroddiad cyntaf Comisiwn Silk, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i lynu wrth yr amserlen a nodwyd gan Gomisiwn Silk, a bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cyhoeddi eu hymatebion yn brydlon i'r ail adroddiad pan gaiff ei gyhoeddi'r gwanwyn nesaf.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 18 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**6 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 17.03

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5306 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd y Grant Amddifadedd Disgyblion wrth helpu i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a thangyflawni addysgol, a chau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'r rheini o gefndiroedd mwy breintiedig.

2. Yn nodi'r gwaith ymchwil diweddar gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru i effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion yng Nghymru, sydd:

a) yn dangos bod y cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar lefelau cyrhaeddiad plant o gefndiroedd tlotach ac ar wella hyder a phresenoldeb; a

b) yn archwilio ffyrdd o wella'r grant yn y dyfodol.

3. Yn nodi bod y cyllid ar gyfer y Premiwm Disgyblion yn Lloegr wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall, o £488 fesul disgybl cymwys yn 2011-12 i £1300 yn 2014-15 o'i gymharu â £450 fesul disgybl cymwys yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynyddu’n sylweddol y cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion fesul disgybl yn y gyllideb nesaf;

b) archwilio’r manteision o ehangu’r Grant Amddifadedd Disgyblion i ddisgyblion o dan bump oed;

c) sicrhau bod y canllawiau ar y grant yn glir ac yn gryno ac yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton ar gyfer Cymru;

d) darparu sicrwydd dros ddyfodol y Grant Amddifadedd Disgyblion a gwybodaeth amserol am ddyraniadau unigol i ysgolion;

e) annog ysgolion i gael polisi clir ar gyfer monitro a gwerthuso cadarn gan sicrhau nad yw’r broses yn or-fiwrocrataidd; ac

f) sefydlu fformiwla gyllido decach sy’n sicrhau bod y cyllid yn adlewyrchu’n gywir nifer y disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a gaiff eu cefnogi gan gyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 9 | 40 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 a) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu wrth y diffyg eglurder o ran deall a gweithredu’r Grant Amddifadedd Disgyblion ar draws yr ysgolion a arolygwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy’n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliant a gyflwynwyd i’r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 7 Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Cartrefi Symudol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.55

Yn unol a Rheol Sefydlog 26.36, cafodd y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Cafodd y gwelliannau eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodwyd yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1. Technegol ac egluro**

5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 18, 19, 20, 23, 25, 26, 27, 28, 29, 30, 31, 38, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 55, 45, 46, 47, 48, 49, 50, 51

**2. Prawf person addas a phriodol**

1, 2

**3. Gorchmynion ad-dalu**

4

**4. Diffinio 'teulu'**

17, 21, 22, 24

**5. Gorchmynion a rheoliadau**

32, 53, 54, 33, 34, 35, 36, 37

**6. Gwelliannau canlyniadol**

52

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi'u didoli.**

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 41 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 41 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 34 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 40 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Derbyniwyd gwelliant 26 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 30 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 31 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 32 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 53:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

Gwrthodwyd gwelliant 53.

Gan fod gwelliant 53 wedi'i wrthod, methodd gwelliant 54.

Derbyniwyd gwelliant 33 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 34 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 35 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 38 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 39 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 40 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 41 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 42 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 43 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 44 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 55 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 45 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 46 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

**Derbyniwyd gwelliant 47 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 48 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 49 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 50 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 51 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 52 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion y Cyfnod Adrodd i ben.**

### 8 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.35

Ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Cartrefi Symudol (Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.42

### 9 Dadl Fer - Gohiriwyd

Daeth y cyfarfod i ben am 18:49

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 1 Hydref 2013**